# AROLYGIAETH GWASANAETH ERLYN Y GORON EM

# AROLYGIAD O WASANAETH ERLYN Y GORON (CPS) DE CYMRU (ADRODDIAD 6/04)

## CRYNODEB GWEITHREDOL

**Cyflwyniad**

1. Dyma adroddiad Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM yngl_n â CPS De Cymru. Mae'r CPS yn wasanaeth cenedlaethol, ond mae'n gweithredu ar sail ddatganoledig gyda phob un o'i 42 Ardal yn cael eu harwain gan Brif Erlynydd y Goron sy'n arfer lefel sylweddol o hunanreolaeth. Roedd hwn yn arolygiad llawn. Cyflwynwyd adroddiad ar yr Ardal yn flaenorol ym mis Ionawr 2001.

**Yr Ardal**

2. Mae CPS De Cymru yn gwasanaethu'r ardal a gwmpesir gan Heddlu De Cymru. Mae ganddo brif swyddfeydd yn Abertawe, Caerdydd a Merthyr Tudful. Caiff unedau eraill eu cyd-leoli gyda'r heddlu yng Ngorsafoedd Heddlu Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr a'r Barri. Rhennir yr Ardal yn ôl swyddogaeth rhwng gwaith y llysoedd ynadon a Llys y Goron. Ar adeg ein harolygiad, roedd yr Ardal yn cyflogi 201.4 o staff amser llawn. Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Medi 2003, ymdriniodd â 50,331 o achosion yn y llysoedd ynadon a 3,737 o achosion yn Llys y Goron. Rhoddodd gyngor cyn-cyhuddo i'r heddlu mewn 2,468 o achosion pellach.

**Prif ganfyddiadau'r Arolygiaeth**

3. Mae canlyniadau gwaith achos yn yr Ardal yn foddhaol ac, mewn llawer o agweddau, yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae hyn yn arbennig o wir o ran y ffaith bod y llysoedd ynadon a Llys y Goron yn caniatáu llai o amser i'r erlyniad baratoi achosion na'r hyn sy'n gyffredin mewn llawer o rannau o'r wlad. O ganlyniad, i ryw raddau, datgelodd dadansoddiad manwl o achosion unigol yn y sampl ffeiliau ac yn y llys rai achosion lle y dylai'r CPS fod wedi cymryd camau mwy cadarnhaol yn gynharach ac mae angen i gyfreithwyr Ardal sicrhau y cynhelir safon uchel o ran gwneud penderfyniadau drwy fod yn fwy trylwyr wrth ystyried y dystiolaeth ym mhob achos.

4. Mae prosesau gwaith achos, ac eithrio nifer y traddodebau a ryddheir pan nad ydynt yn barod, yn gadarn ar y cyfan. Mae lefel y treialon aneffeithiol yn y llysoedd ynadon, ac yn enwedig yn Llys y Goron, yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

5. Mae proses yr Ardal o gyflawni ei dyletswyddau o ran dadlennu deunydd nas defnyddiwyd yn fregus, o ran y ffaith nad yw erlynwyr yn archwilio'r materion yn ddigon manwl. Darparwyd hyfforddiant ar draws y rhan fwyaf o unedau, a rhoddwyd canllawiau manwl i gyfreithwyr yn 2003. Serch hynny, er y caniateir i'r amddiffyniad gael mynediad i ddeunydd, mae angen gwelliannau sylweddol.

6. Mae'r rhan fwyaf o eiriolwyr yr erlyniad yn rhoi perfformiad boddhaol ac mae llawer yn well na'r cyffredin mewn rhai agweddau. Fodd bynnag, cafwyd perfformiad gwael gan nifer o gyfreithwyr y CPS o ran diffyg gwaith paratoi neu brofiad.

7. Roedd y broses o gysylltu â thystion yn dda ar y cyfan, ond yn amrywio rhwng erlynwyr unigol. Mae presenoldeb Swyddog Datblygu Achos yn Llys Ynadon Caerdydd i gynorthwyo tystion yn arfer da. Mae'r Ardal hefyd yn cyflwyno gweithdrefn adborth arloesol i asesu perfformiad cyffredinol y cwnsler yn Llys y Goron yn gofalu am dystion er mwyn gwneud gwelliannau.

8. Mae strwythur cadarn ar gyfer rheoli perfformiad. Mae'r Ardal yn gweithio'n gadarnhaol iawn yn y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB) i gulhau'r bwlch cyfiawnder a chodi hyder y cyhoedd. Aeth y broses o gyd-leoli gyda'r heddlu rhagddi'n dda a bu'n llwyddiannus, a chroesawyd y cynllun cyhuddo newydd gan yr heddlu.

9. Caiff dulliau staffio a strwythur y sefydliad eu hadolygu'n rheolaidd a gwneir newidiadau i fodloni gofynion. Rhoddir pwyslais mawr ar ddatblygu staff. Mae dulliau cyfathrebu o fewn yr Ardal yn dda, gyda chymysgedd o gyfarfodydd rheoli, technoleg newydd a chyhoeddiadau Ardal (yn cynnwys fersiynau Cymraeg) yn cael eu defnyddio i sicrhau bod staff yn ymwybodol o ddigwyddiadau cyfredol. Mae'r strwythur rheoli yn gadarn ac yn diwallu anghenion lleol.

10. Mae gan yr Ardal systemau da i fonitro a rheoli ei gwariant o'r gyllideb, ond mae angen iddi sicrhau cyfanrwydd ei data gwaith achos, er mwyn sicrhau bod sylfaen gadarn i'r broses o ddyrannu adnoddau ariannol yn yr Ardal.

11. Gwna'r Ardal ymdrech sylweddol i gysylltu â'r gymuned leol, yn cynnwys grwpiau a sefydliadau lleiafrifoedd ethnig. Mae'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith ei staff.

## Canfyddiadau penodol

### *Gwaith achos*

12. Mae canfyddiadau gwaith achos yn tueddu i fod yn ffafriol. Serch hynny, canfuom enghreifftiau lle y nodwyd materion tystiolaethol anodd yn hwyr, neu ddim o gwbl. Mae hyn wedi arwain at nifer o achosion a ddaeth i ben yn hwyr a lleihad mewn cyhuddiadau ar ddyddiad y treial yn y llysoedd ynadon. Canfuom enghreifftiau tebyg yn Llys y Goron, er bod perfformiad mewn perthynas â threialon sy'n chwalu a rhai aneffeithlon yn Llys y Goron wedi gwella, ac yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ymdrinnir ag achosion sensitif, ar y cyfan, yn briodol ac mae ansawdd y broses o wneud penderfyniadau yn yr achosion hyn yn dda ar y cyfan.

13. Yn yr arolygiad diwethaf nodwyd bod angen atgyfnerthu proses yr erlyniad o gyflawni ei ddyletswydd wrth ddadlennu deunydd nas defnyddiwyd, ac mae angen gwella perfformiad yr Ardal wrth dystiolaethu ei phenderfyniadau a'i chamau cadarnhaol.

14. Rhwng 1 Ebrill a 31 Rhagfyr 2003, rhyddhawyd 136 o draddodebau (7.2% o achosion i'w traddodi) oherwydd nad oedd yr erlyniad yn barod i fynd ymlaen â'r achos. Bydd angen i'r Ardal weithio gyda'r heddlu a'r llysoedd ynadon i leihau'r nifer hwn, a sicrhau y caiff achosion a ryddhawyd eu hailgychwyn lle y bo'n briodol.

15. Mae prosesau gweinyddol wedi datblygu yn unol â chyd-leoliad. Mae'r rhan fwyaf o'r unedau yn perfformio yn ôl lefel foddhaol, ond mae angen mynd i'r afael â'r ôl-groniad wrth ymdrin â'r post a therfynu achosion mewn rhai swyddfeydd. Ystyria arolygwyr mai un ffactor sy'n cyfrannu'n sylweddol at hyn yw'r ffaith bod y CPS yn delio â mân droseddau penodedig yn ddiangen.

***Eiriolaeth ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn y llys***

16. Mae ansawdd yr eiriolaeth gan y cwnsler a gweithwyr achos penodedig yn gadarn. Mae llawer o gyfreithwyr CPS yn perfformio'n dda – a rhai yn dda iawn – ond mae angen i eraill wella.

***Dioddefwyr a thystion***

17. Mae staff CPS yn darparu gwasanaeth da i ddioddefwyr a thystion yn y rhan fwyaf o'r llysoedd. Mae presenoldeb Swyddog Datblygu Achos yn Llys Ynadon Caerdydd wedi gwella'r gofal i dystion, ac mae Arolygwyr yn ei ystyried fel arfer da. Mae'r Ardal yn cymryd camau i wella cysylltiad y cwnsler â dioddefwyr a thystion. Mae hyn yn cynnwys arolwg arloesol o dystion sy'n mynychu'r llys. Mae'r broses o gymhwyso menter Cyfathrebu Uniongyrchol â Dioddefwyr (DCV) yn yr Ardal yn foddhaol.

***Rheoli perfformiad***

18. Gweithredwyd y cynllun Sicrwydd Ansawdd Gwaith Achos Cenedlaethol i fonitro perfformiad unigol ac mae'r Ardal yn monitro adroddiadau uned yn agos. Ceir rhywfaint o anghysondeb rhwng yr unedau, fodd bynnag, ac mae angen atgyfnerthu dull rheoli perfformiad unigol.

19. Ceir targedau perfformiad Ardal ac uned. Mae matrics perfformiad ac adroddiad perfformiad uned misol yn galluogi rheolwyr i asesu agweddau allweddol ar berfformiad.

***Rheoli pobl a chanlyniadau***

20. Caiff dulliau staffio a strwythur y sefydliad eu hadolygu'n rheolaidd a gwneir newidiadau i fodloni gofynion. Rhoddir pwyslais mawr ar ddatblygiad personol. Mae dulliau cyfathrebu o fewn yr Ardal yn dda, gyda chymysgedd o gyfarfodydd rheoli, technoleg newydd a chyhoeddiadau Ardal yn cael eu defnyddio i sicrhau bod staff yn ymwybodol o ddigwyddiadau cyfredol. Mae prosesau datblygu staff yn gryfder.

21. Mae'r Ardal yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae wedi cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn Arolwg Staff 2002.

*Rheoli ariannol*

22. Mae gan yr Ardal systemau effeithiol i fonitro a rheoli ei gwariant cyllidebol.

*Partneriaethau ac adnoddau*

23. Mae partneriaid y system cyfiawnder troseddol (CJS) yn fawr eu canmoliaeth o'r Ardal ac mae'n chwarae rhan allweddol wrth godi proffil materion CJS o fewn y gymuned. Mae'r Ardal wedi cyflwyno'r system rheoli achosion Compass ac mae'r rhan fwyaf o'r staff yn defnyddio'r system yn ôl y gofyn.

*Polisi a strategaeth*

24. Mae staff yn yr Ardal yn deall yr angen i gyflawni elfennau allweddol o'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r broses o ddatblygu polisïau a strategaethau wedi'i chynllunio ac yn ystyried anghenion a disgwyliadau rhanddeiliaid allanol. Caiff y Cynllun Busnes Ardal ei adolygu'n rheolaidd, a cheir fframwaith cadarn i gyflawni'r newidiadau.

*Hyder y cyhoedd*

25. Mae ansawdd yr ymatebion i g_ynion yn rhesymol, ond gellir gwella amseroldeb. Mae safon y cofnod o g_ynion a gofnodir yn amrywio. Mae'r Ardal yn rhagweithiol wrth gysylltu â chymunedau lleiafrifoedd ethnig, a'r gymuned yn gyffredinol. Mae wedi helpu i gynhyrchu fideo i blant ysgol ar faterion cyfiawnder troseddol a throseddau hiliol.

*Arweinyddiaeth a llywodraethu*

26. Mae'r Ardal yn ymrwymedig i chwarae rôl allweddol i gyflawni'r nodau a bennir ar gyfer y system cyfiawnder troseddol. Mae Prif Erlynydd y Goron yn cadeirio'r LCJB ac, ar y cyd â'r Rheolwr Busnes Ardal, ystyrir ei fod yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu mentrau pwysig yn y system cyfiawnder troseddol lleol.

27. Mae'r strwythur rheoli yn gadarn ac yn diwallu anghenion lleol. Mae strwythur trefniadol yn newid yn unol â gofynion cenedlaethol a lleol a chaiff y newidiadau eu rheoli.

## Argymhellion

28. Gwnaeth Arolygwyr y tri argymhelliad canlynol:

   1. Dylai'r Ardal wella trylwyredd adolygiadau cychwynnol, i sicrhau y caiff unrhyw wendidau mewn achos eu nodi ac yr eir i'r afael â hwy cyn gynted â phosibl.

   2. Dylai'r Ardal fynd i'r afael â'r broses o ddeall a gweithredu dyletswyddau dadlennu'r erlynydd drwy'r cyfarwyddiadau gweithredu ar y cyd diwygiedig drwy hyfforddiant a monitro.

3. Mae’n rhaid i’r Rheolwr Busnes Ardal a Phrif Erlynydd y Goron sicrhau na chaiff y gweithrediadau penodedig eu cynnwys yn ystadegau llwyth achos yr Ardal, ac egluro rôl y CPS mewn troseddau penodedig yr ymdrinnir â hwy drwy weithrediadau penodedig i’r heddlu a’r llysoedd ynadon.

Gellir cael testun llawn yr adroddiad gan y Gr_p Gwasanaethau Corfforaethol yn Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM (ffôn 020 7210 1197) ac mae ar gael ar-lein hefyd yn www.hmcpsi.gov.uk.

Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM
Mehefin 2004